

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
**COFNODION CYFARFOD 20 GORFFENNAF 2020**  
20 Gorffennaf 2020 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

## **CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO**

### **1. Presennol**

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts, Llio Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

### **Ymddiheuriadau:**

Dim

### **2. Datgan Diddordeb**

Dim

### **3. Cadarnhau Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 29 Mehefin 2020. Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

### **4. Ffurflen Flynyddol**

Aethpwyd drwy Ffurflen Flynyddol 2019/20 yn fanwl. Cwblhawyd Rhan 1 a Rhan 2. Bydd y Cadeirydd yn ei lofnodi ac yn ei ddanfon yn ôl at y Clerc, i'w ddanfon ymlaen at yr archwilwyr allanol gyda llythyr yn egluro'n fanylach y sefyllfa ble y nodwyd "naddo" fel ateb i unrhyw gwestiwn ar y ffurflen flynyddol.

### **5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

#### **5.1 Ymgynghoriad llacio cyfyngiadau – Parc Cenedlaethol Eryri**

Gofynnodd Parc Cenedlaethol Eryri am farn cynghorau cymuned am lacio cyfyngiadau COVID-19.

Cytunwyd fod pryder nad oedd ymwelwyr o Loegr yn deall fod y canllawiau yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr a bod angen ymbellhau'n gymdeithasol bellter o 2 fetr yn hytrach nag 1 metr.

Yn ogystal, byddai nifer fawr o ymwelwyr yn cynyddu'r risg o ail don o'r haint COVID-19 a doedd yr adnoddau iechyd yn lleol ddim yn ddigonol i fedru delio efo hyn.

## **5.2 13 Garreg Frech**

Mae'r Cynghorydd Gareth Thomas wedi cysylltu efo Dafydd Gibbard a Craig ap Iago yng Nghyngor Gwynedd parthed y mater a gofyn iddyn nhw weithredu.

Cafwyd ymateb gan E Bleddyn Jones yn dweud na fyddai'r mater yn cael ei flaniaethu, ac na fyddai'n cael sylw tan o leiaf fis Hydref 2020, oherwydd pwysau gwaith COVID-19,

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Helen Mary Jones, aelod rhanbarthol Senedd Cymru parthed y mater.

## **5.3 Y Ganolfan**

Cymeradwywyd gwneud y gwaith trydan a phlymio oedd wedi ei argymhell yn dilyn yr asesiad trydan yn ddiweddar ar gost o £470 am y gwaith trydan a £264 am y gwaith plymio.

Gwnaethpwyd cais am y grant o £10,000 sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ganolfannau cymdeithasol oherwydd COVID-19, ac fe benderfynwyd aros i weld a fyddai'r cais hwnnw'n llwyddiannus cyn trafod dyfodol Y Ganolfan.

## **5.4 Mynwent Tan Lan**

Mae'r Clerc wedi gofyn am bris gan Richard Pearson i dorri'r goeden sydd wedi cwmpo yn y gornel ger y cwt. Hefyd pris i dynnu'r goeden

sycamorwydden sydd wrth y fynedfa a'r coed sycamore eraill sydd ger wal y fynwent.

Cafwyd pris gan Dylan Edwards am drwsio'r ffens o £250. Cytunwyd fod y pris yn dderbyniol cyn belled a bod postiau a rheiliau newydd yn cael eu gosod a'r drain gerllaw yn cael ei glirio.

### **5.5 Cyfraniad at Brosiect y Dref Werdd**

Cafwyd ymateb pellach gan Y Dref Werdd parthed eu costau o ddefnyddio hen adeilad yr HSBC ym Mhenrhyndeudraeth ar gyfer eu pencadlys dros dro er mwyn gwireddu prosiectau lleol.

Cytunwyd i gyfrannu £200

Mae Lauren Hill wedi ei phenodi fel Syddog Prosiect Lleol. Cytunwyd y dylid ei gwahodd i gyfarfod mis Medi er mwyn deall ei gwaith.

## **6 Materion Ariannol**

**6.1** Scottish Power, 8 Gorffennaf 2020 £74.25

**6.2** Ad-daliad TAW HMRC 26 Mehefin 2020 £765.33

**6.3** Monitro'r Gyllideb a Balans yn y banc 6 Gorffennaf 2020 £18,915.89

Cymeradwywyd gwneud y taliadau uchod.

### **7. Gohebiaeth**

Dim

### **8.Ceisiadau Cynllunio**

Creua, Llanfrothen, LL48 6SH

Dim gwrthwynebiad.

## **9. Materion Eraill**

### **9.1` Llythyr Cynefin – Arolwg Angen Tai Lleol**

Ysgrifennodd y Clerc at Cynefin yn dilyn eu llythyr yn gofyn am farn y cyngor cymuned ar anghenion tai yn lleol gan awgrymu fod y mater yn cael ei ohirio tan fod yr argyfwng COVID-19 wedi dod i ben, er mwyn medru cael barn y gymuned yn llawn.

Mae'r swyddogion sy'n delio efo'r mater yn Cynefin wedi newid ac fe gafwyd ail lythyr ganddynt nad oedd yn ymateb i lythyr y Clerc. Felly ysgrifennwyd atynt unwaith eto gan gyfeirio at lythyr gwreiddiol y Clerc, a disgwylir ymateb.

Penderfynwyd y byddai'n syniad gwahodd cynrychiolydd Cynefin i gyfarfod mis Medi er mwyn trafod y mater ymhellach.

## **9.2 Anghenion Tai Adra**

Yn dilyn ymweliadau cynrychiolwyr ADRA i wneud asesiad cychwynnol o addasrwydd y cae uwchben Garreg Frech ar gyfer datblygiad tai, mae grŵp Facebook lleol wedi ei sefydlu er mwyn trafod hyn.

Mae'n debyg fod yna asesiadau pellach o'r tir wedi bod yn ddiweddar.

Bwriada'r grŵp ddanfôn llythyr i'r cyngor cymuned yn mynegi eu teimladau ar y mater.

## **9.3 Claddu Peilonau o dan Y Dwyrdd**

Mae penderfyniad wedi ei wneud i gladdu'r peilonau sy'n mynd dros yr afon Dwyrdd. Bydd y prosiect yn costio £500m.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at National Grid i holi am sut i wneud cais fuddiannau cymdeithasol fedr ddeillio o'r prosiect.

## **9.4 Torri glaswellt yn Rhyd**

Hanner un ochr sydd wedi ei wneud yn unig yn Rhyd, a safon y gwaith yn israddol.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddyn nhw ail wneud y gwaith.

## **9.5 Goryrru yn Llanfrothen**

Gan fod y cyfyngiadau COVID-19 wedi eu llacio, cytunwyd y byddai'n briodol cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod problem goryrru yn Llanfrothen. Cafodd cyfarfod blaenorol oedd wedi ei drefnu ar gyfer mis Mawrth ei ohirio oherwydd COVID-19. Gan ei bod hi'n gyfnod gwyliau ysgol, cytunwyd mai Dydd Gwener fyddai'r diwrnod gorau i gael cyfarfod, a hynny am 8 y bore os yn bosibl, gan fod pobl ar eu ffordd i'r gwaith.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – Hydref 5 2020  
am 7:30 yr hwyr**